Arfer orau

Ysgol Olchfa, Abertawe

Nifer y disgyblion: **1824**

Ystod oedran: **11-18 oed**

Dyddiad arolygiad Estyn: **Mai 2011**

Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales



Maes arfer sy'n arwain y sector a nodwyd yn ystod yr arolygiad ac sy'n berthnasol i ddangosydd ansawdd penodol:

Cwestiwn Allweddol: 2

Dangosydd ansawdd: Addysgu

Agwedd: Ystod ac ansawdd y dulliau addysgu.

Cyd-destun a chefndir i arfer sy'n arwain y sector

Ysgol gyfun gymysg fawr 11-18 oed yn Abertawe yw Ysgol Olchfa. Mae 1,824 o ddisgyblion ar y gofrestr, yn cynnwys 440 o fyfyrwyr yn y chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o gefndir cymdeithasol amrywiol ac yn cynrychioli'r ystod gallu llawn.

Cynllun arsylwi sy'n addysgu cymheiriaid a sefydlwyd yn 2006 yw'r Grŵp Arsylwi Dysgu ac Addysgu (LATOG). Mae'n galluogi i ni gynnig cyngor ffurfiannol ac adeiladol i gydweithwyr, tra'n cydnabod, atgyfnerthu a rhannu arfer dda ar draws adrannau. Mae arsylwadau LATOG yn cynnig gwasanaeth 'ffrind beirniadol' ar gyfer athrawon. Nid ydynt yn arsylwadau wedi'u graddio. Ystyrir eu bod yn gefnogol ac nad ydynt yn fygythiol, a'u bod yn darparu man cychwyn i drafodaeth am addysgu a dysgu; un sydd wedi'i gwreiddio mewn diwylliant o ddidwylledd, ymddiriedaeth a chydweithio.

Mae gennym dîm o ddeg staff LATOG yn Olchfa ar hyn o bryd, ac mae pob un ohonynt wedi profi eu hunain yn ymarferwyr arweiniol. Mae ein harsylwyr yn rhychwantu ystod o adrannau ac mae ganddynt ystod o gyfrifoldebau o fewn yr ysgol. Nid yw grŵp LATOG yn gyfyngedig. Bob blwyddyn, caiff y tîm ei adolygu ac fe gaiff aelodau newydd eu hannog i gymryd rhan. Mae rhaglen hyfforddi drylwyr ar waith ar gyfer arsylwyr newydd, a rhoddir amser i staff ddatblygu eu medrau arsylwadol. Mae bod yn rhan o'r tîm arsylwi ynddo'i hun yn ffordd o hyrwyddo datblygiad proffesiynol parhaus y staff dan sylw.

Disgrifiad o natur strategaeth neu weithgaredd:

Caiff pob un o'r athrawon eu harsylwi yn ystod y flwyddyn academaidd, ac fe gânt sylwebaeth drylwyr ac ystyrlon ar eu gwers. Rhoddir adborth llafar ac ysgrifenedig, sy'n cael ei ledaenu ymhlith Cydlynwyr Dysgu a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth. Rhoddir adborth ffurfiol ar ddiwrnod yr arsylwi ac mae'r adborth ysgrifenedig yn dilyn o fewn saith diwrnod. Mae hyn yn sicrhau bod y broses yn aros yn newydd a pherthnasol. Trwy gydol y broses, anogir trafodaethau a rhennir strategaethau adeiladol i wella'r addysgu.

Mae datblygiadau diweddar o ran LATOG yn ymwneud â chynnwys disgyblion yn y broses arsylwi.

"Nod y prosiect yw hyrwyddo llais y myfyriwr ac annog myfyrwyr i gymryd mwy o ran mewn materion addysgu a dysgu."

Rydym wrthi'n arbrofi â phrosiect ar hyn o bryd, lle mae grŵp o fyfyrwyr hyfforddedig yn mynd gyda staff LATOG i wersi dethol i arsylwi eu cyfoedion yn dysgu. Mae gennym dîm o saith arsylwr sy'n fyfyrwyr ar hyn o bryd sy'n gweithio gyda'u grŵp blwyddyn neu islaw hynny. Gofynnir i fyfyrwyr roi adborth ysgrifenedig a rhoi sylwadau ar agweddau penodol ar ddysgu'r myfyrwyr. Yna, fe gaiff yr adborth hwn ei ledaenu gyda staff LATOG. Nod y prosiect yw hyrwyddo llais y myfyriwr ac annog myfyrwyr i gymryd mwy o ran mewn materion addysgu a dysgu. Ei nod yw dyfnhau trafodaethau rhwng athrawon a myfyrwyr; estyniad pwysig o gysyniadau cyfranogiad disgyblion. Mae'r cynllun peilot hwn wedi hen ddechrau erbyn hyn, a bydd yn parhau dros y flwyddyn academaidd nesaf.

Pa effaith mae'r gwaith hwn wedi'i chael ar ddarpariaeth a safonau dysgwyr?

Nid yw arsylwadau LATOG yn cael eu cynnal ar wahân; maent yn rhan o broses lawer mwy. Trwy rannu ein cryfderau a'n meysydd i'w gwella, mae'r canfyddiadau yn cyfrannu'n uniongyrchol i Hunanarfarniad yr ysgol, y Cynllun Gwella Ysgol ac i ddatblygiad proffesiynol parhaus y staff ystafell ddosbarth. Defnyddir HMS ysgol i fynd i'r afael ag anghenion ysgol gyfan ac fe gaiff athrawon eu hannog i weithio gyda thîm LATOG i nodi a mynd i'r afael â meysydd unigol i'w gwella. Wrth wneud hyn, rydym yn sicrhau bod y gwasanaeth yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd dysgu'r disgyblion yn yr ysgol. Yn yr ysgol, caiff amrywiad ei leihau ac mae disgyblion yn cael profiad o'r un ansawdd ar draws pob gwers.